# Cwpanau Untro

18 Mai 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 24 Ebrill, pan wnaethoch ofyn:

> *Ar gyfer pob un o'r 5 mlynedd diwethaf (wedi'i ddadansoddi fesul blwyddyn)*
> *1. Sawl cwpan untro sydd wedi cael ei brynu gan Gynulliad Cymru? Er eglurhad, cwpanau untro wedi'u leinio â phlastig.*

**1. Nifer y cwpanau yfed untro a brynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y pum mlynedd ariannol ddiwethaf.**

| Blwyddyn Ariannol | Nifer a brynwyd |
|---|---|
| 2013/14 | 116,150 |
| 2014/15 | 108,250 |
| 2015/16 | 128,300 |
| 2016/17 | 128,050 |
| 2017/18 | 139,050 |
| Cyfanswm | **619,800** |

Rydym yn gweithio tuag at gael gwaed ar gwpanau untro na ellir eu hailgylchu yn llwyr, erbyn Medi 2018.

Rydym yn gweithio gyda'n cyflenwr arlwyo i ddod o hyn i gwpanau dŵr y gellir eu compostio neu eu hailgylchu i gymryd lle'r cwpanau plastig untro a ddefnyddir ar hyn o bryd, a byddwn wedi gwneud y newid hwn erbyn Medi 2018.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth i annog staff ac ymwelwyr i ddefnyddio poteli y gellir eu hailenwi lle bynnag y bo modd, er mwyn helpu i leihau'r defnydd o gwpanau dŵr ger y ffynhonnau dŵr yn ein hadeiladau.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF